

## PRYS, ELIS (1512? - 1594) ('Y Doctor Coch') o Blas Iolyn

**Enw:** Elis Prys

**Ffugenw:** Y Doctor Coch

**Dyddiad geni:** 1512?

**Dyddiad marw:** 1594

**Priod:** Ellyw Prys (née Pool)

**Plentyn:** Gaenor Thelwall (née Prys)

**Plentyn:** Thomas Prys

**Rhiant:** Mared ferch Rhys Llwyd

**Rhiant:** Robert ap Rhys

**Rhyw:** Gwryw

**Cartref:** Blas Iolyn

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil; Eisteddfod

**Awdur:** William Rowlands

Ail fab [Robert ap Rhys ab Meredydd](#) o Blas Iolyn, Ysbyty Ifan, sir Ddinbych. Dywedir i'w daid [Rhys ab Meredydd](#), neu Rhys Fawr, ymladd ar faes Bosworth ym mhlaidd [Harri VII](#). Yr oedd ei dad Robert ap Rhys yn un o gaplaniaid y llys brenhinol o dan cardinal Wolsey, a rhoddodd y brenin Harri VIII y cwbl o diroedd Dolgynwal iddo a rhan fawr o Benllyn, lle y sefydlodd ei fab, Cadwaladr, deulu [Price](#), Rhiwlas; brawd arall i Elis Prys oedd [Thomas Vaughan](#) o'r Pant Glas.

Ganed ef yn nechrau'r 16eg ganrif ac addysgwyd ef yng Nghaergrawnt, lle y derbyniodd radd Ll.B. yn 1533, a D.C.L. yn 1534, ac oddi wrth fantell goch ei radd gelwid ef 'Y Doctor Coch.' Priododd Ellyw, merch Owen Pool o Landecwyn, Merionnydd, a bu iddo saith o blant, dau fab a phum merch; [Thomas](#) oedd y mab hynaf. Yn 1535 penodwyd ef gan Thomas Cromwell i ymweled â'r mynachdai yng Nghymru a chymerth ran flaenllaw mewn diddymu'r mynachdai. Yn 1538 gwnaeth Cromwell ef yn ddirprwywr cyffredinol esgobaeth Llanelwy, a chafodd reithoraeth Llangwm, Llandrillo yn Rhos, a Llanuwchllyn. Yn nheyrnasiad Mari ac Elisabeth ymroddodd i wasanaeth gwladol; bu'n aelod seneddol dros Feirionnydd dair gwaith, a bu'n siryf Meirionnydd saith gwaith, yn siryf sir Ddinbych bedair gwaith, yn siryf Môn ddwy waith, a siryf Caernarfon unwaith, ac yn 'custos rotulorum' Meirionnydd bron drwy oes Elisabeth. Bu hefyd yn aelod o gyngor y gororau. Yn 1561 gwnaed ef yn ganghellor Bangor a rhoddwyd rheithoraeth Llaniestyn iddo; yn Chwefror 1565 awgrymwyd ei wneud yn esgob Bangor, ond gwrthwynebai'r archesgob Parker gan nad oedd Prys nac offeiriad nac yn gymwys i fod felly. Yn 1560 cafodd gan y Goron faenor Tir Ifan yn cynnwys tiroedd yn Ysbyty Ifan a Phenmachno. Yr oedd yn gyfaill mawr i Robert Dudley, iarll Leicester, a phan roddodd Elisabeth arglwyddiaeth Dinbych yn anrheg i'r iarll yn 1564, yr oedd Prys yn un o'i denantiaid, ac yn offeryn gormes yn ei law. Dywed [Thomas Pennant](#) amdano: 'a creature of the Earl of Leicester and devoted to all his bad designs.' Byddai'n noddi'r beirdd, a'i enw ef yw y cyntaf ar restr ysgwieriaid yn y comisiwn a roddodd y frenhines Elisabeth i gynnal eisteddfod yng Nghaerwys yn 1567. Gwnaeth ei ewyllys ar 3 Awst 1590; ychwanegwyd ati ar 6 Mai 1594, a phrofwyd hi 24 Mai 1596 Bu farw 8 Hydref 1594.

Mab iddo oedd y bardd [Thomas Prys](#) o Blas Iolyn.

### Awdur

William Rowlands

### Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 204

*Cymru (O.M.E.)*, ivii, 14-6

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96) (ail arg.), viii, 468 ff

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 851-2

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Archaeologia Cambrensis* (3edd gyfres), ii, 179; vi, 108

Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*, ii, 89; iii, 140

Archif LIGC: [Plas Nantglyn MS. 1](#)

[Robert Parry's Diary](#), ' *Archaeologia Cambrensis*, 1915, t. 120

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

